**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo**

## Cefndir

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2(i). Rhaid i aelod o Lywodraeth Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas ag unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol pan y'i cyflwynir i'r Tŷ cyntaf, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno. Yn Rheol Sefydlog 29, ystyr "Bil perthnasol" yw Bil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU ac sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth berthnasol") mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Diogelwch Ffiniau, Lloches a Mewnfudo (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Ionawr 2025. Mae'r Bil ar gael yma: : https://bills.parliament.uk/bills/3929

## Amcan(ion) polisi

3. Yr amcanion polisi a nodwyd gan Lywodraeth y DU yw:

   - sefydlu'r strwythur a darparu'r offer, y pwerau a'r troseddau i drawsnewid yr ymateb traws-system i'r bygythiadau yn erbyn diogelwch ffin y DU a chryfhau gweithrediad systemau diogelwch y ffin, lloches a mewnfudo
   - gwella diogelwch ffin y DU a chryfhau'r system loches a mewnfudo trwy greu fframwaith o bwerau a throseddau newydd a gwell sydd, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn atgyfnerthu, yn cryfhau ac yn cysylltu galluoedd ar draws y llywodraeth berthnasol a phartneriaid gorfodi'r gyfraith sy'n rhan o systemau diogelwch y ffin, lloches a mewnfudo'r DU
   - galluogi ymateb i'r ystod o fygythiadau presennol ac yn y dyfodol i ffin y DU, a'r bwriad yn y tymor byr yw cefnogi ffocws Rheolaeth Diogelwch y Ffin ar atal, ymchwilio ac erlyn Troseddau Mewnfudo Cyfundrefnol (OIC), gan ddarparu ataliad a chosbau ychwanegol i droseddwyr sy'n ymwneud â gweithgarwch o'r fath.
     a. galluogi ymyriadau doethach, cyflymach a mwy effeithiol i amddiffyn diogelwch ffin y DU;
     b. ei gwneud hi'n haws canfod, tarfu a rhwystro'r rhai sy'n ceisio cymryd rhan mewn ac elwa ar OIC, gan gyfyngu'r amgylchedd caniataol a'i effaith; a
     c. gwella dealltwriaeth o sut a pham mae OIC yn digwydd.

**Crynodeb o'r Bil**

4. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref.

5. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer y canlynol:

   - gwneud Rheolwr Diogelwch y Ffin yn Ddeiliad Swydd Statudol ac yn manylu ar ei swyddogaethau yn y rôl hon (cymalau 1-12).
   - troseddau newydd mewn perthynas â'r gweithredoedd paratoi i gyflawni trosedd mewnfudo a pheryglu bywyd person arall wrth groesi'r môr i'r Deyrnas Unedig (cymalau 13-18)
   - pwerau i swyddog mewnfudo neu gwnstabl heddlu chwilio, atafaelu a chadw gwybodaeth sy'n cael ei storio ar ddyfeisiau electronig (cymalau 19-26)
   - rhannu gwybodaeth tollau gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) a rhannu gwybodaeth gofrestru ôl-gerbydau i gynorthwyo gyda swyddogaethau'r Swyddfa Gartref (cymalau 27-33)
   - darparu gwybodaeth fiometrig y tu allan i broses ymgeisio am fisa a defnyddio a chadw'r wybodaeth honno (cymalau 34-35)
   - pwerau mewn porthladdoedd yn yr Alban i gymryd olion bysedd (cymal 36)
   - diddymu deddfwriaeth fewnfudo mewn perthynas â rhai rhannau o Ddeddf Mudo Anghyfreithlon 2023 a'r cyfan o Ddeddf Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo) 2024 (cymalau 37-39)
   - pwerau newydd mewn perthynas â'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo (cymal 40)
   - newidiadau i'r pŵer i gadw person cyn ei allgludo (cymal 41)
   - pwerau newydd mewn perthynas â chymryd gwybodaeth fiometrig (cymal 42)
   - trosedd newydd mewn perthynas â'r erthyglau a ddefnyddir mewn Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (cymalau 43-45)
   - diwygiadau i Orchmynion Atal Troseddau Difrifol a chyflwyno Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol Interim (cymalau 46-50)
   - dilysu ffioedd a godir mewn perthynas â chydnabod cymwysterau proffesiynol (cymal 51).

6. Mae swyddogion o Adran Addysg Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch eu cynigion i ddeddfu i ddarparu awdurdod statudol ôl-weithredol ar gyfer ffioedd a godir mewn perthynas â chydnabod cymwysterau. Gan fod y Bil yn anelu at unioni diffyg mewn *vires* cyfreithiol hanesyddol ac nid yw'n sefydlu polisi gweithredol newydd mewn perthynas â'r ffioedd a godir, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus.

7. Ni fu'n bosibl cydymffurfio â'r gofyniad i osod memorandwm o fewn pythefnos (Rheol Sefydlog 29.2) gan nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gallu ystyried cymalau cyn cyflwyno'r Bil (ac eithrio cymal 51 yr oedd Llywodraeth y DU eisoes wedi nodi bod angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer).

8. Mae dau gymal yn bodloni’r prawf cyfreithiol ar gyfer Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, sef cymalau 38 a 51.

9. Mae Cymal 38 yn ymwneud â diddymiad arfaethedig sawl adran o Ddeddf Mudo Anghyfreithlon 2023, y mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddiben a gadwyd yn ôl yn gyfan gwbl.

10. Mae cymal 51 yn dilysu ffioedd a godwyd mewn perthynas â chymwysterau cyn pasio'r Bil, mewn un o dri o amgylchiadau. Mae'r cyntaf yn ymwneud â chymharu, cydnabod neu asesu at ddibenion mewnfudo neu genedligrwydd cymwysterau’r DU neu gymwysterau o'r tu allan i'r DU. Mae'r ail yn ymwneud â gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chymharu, cydnabod neu asesu cymwysterau o'r tu allan i'r DU ar gyfer cyflogaeth yng nghyd-destun y blynyddoedd cynnar. Mae'r trydydd yn ymwneud â gwasanaethau yn unol â chytundeb neu drefniant rhyngwladol sy'n gysylltiedig â chymharu, cydnabod neu asesu cymwysterau'r DU neu gymwysterau o'r tu allan i'r DU neu ddarparu gwybodaeth neu gyngor am gymwysterau o'r fath neu'r systemau ar gyfer eu dyfarnu, neu wasanaethau cysylltiedig.

11. Mae’r olaf yn ymwneud â Gwasanaeth ENIC y DU a gafaelwyd gan Lywodraeth y DU sy'n cyflawni rhwymedigaethau'r DU o dan ddau gytuniad ("y Confensiynau"). Nod y Confensiynau yw hwyluso symudedd academaidd a phroffesiynol rhwng gwladwriaethau a gwella cydweithredu ac ymddiriedaeth ryngwladol mewn addysg uwch. I gyflawni'r nodau hyn, mae'r Confensiynau yn ei gwneud yn ofynnol i’r gwladwriaethau a’u llofnododd i:
    (i) Ddarparu mecanwaith ar gyfer asesu a chydnabod cymwysterau tramor yn deg; a
    (ii) Sefydlu neu gynnal 'canolfan wybodaeth genedlaethol' i hwyluso mynediad at wybodaeth am gymwysterau a systemau addysg uwch.

12. Hyd yn hyn mae'r DU wedi cyflawni'r rhwymedigaethau hyn trwy wasanaethau y mae’r Adran Addysg wedi contractio darparwr (Ecctis) i'w cyflenwi. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau i:

    - Unigolion - megis dogfennau ('datganiadau cymaroldeb') sy'n tystio i gymaroldeb cymhwyster tramor unigolyn gyda chymwysterau a ddyfernir yn y DU.
    - Sefydliadau - megis cynlluniau bwndel lle mae sefydliadau'n talu ffioedd ymlaen llaw am nifer o ddogfennau a bennwyd ymlaen llaw; a chynlluniau tanysgrifio lle gall sefydliadau dalu i ddefnyddwyr gael mynediad i rannau cyfyngedig o'r cronfeydd data cymwysterau, cylchlythyrau, cynadleddau a buddion ategol eraill.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

13. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn ymwneud â chymal 38 a chymal 51 yn unig.

<u>Cymal 38</u>

14. Mewn perthynas â **chymal 38**, mae'r Memorandwm hwn yn ymwneud â diddymu'n benodol adrannau 4, 20, 21, 57 a 58 (fel y'u nodir yng nghymal 38(1)(a), 38(1)(d) a 38(1)(f)) gan fod y rhain yn ymwneud â deddfwriaeth ar drin plant ar eu pen eu hunain a allai fod dan ofal awdurdod lleol yng Nghymru.

15. Rhoddodd Adran 4 o Ddeddf Mudo Anghyfreithlon 2023 ("Deddf 2023") bŵer i Ysgrifennydd Gwladol y DU wneud eithriadau i'r ddyletswydd i symud unigolion o'r DU. Gallai rheoliadau cysylltiedig gynnwys diwygiadau canlyniadol i Fesurau neu Ddeddfau Senedd Cymru.

16. Roedd adran 20 o Ddeddf 2023 yn caniatáu i Ysgrifennydd Gwladol y DU ymestyn cymalau yn ymwneud â llety ar gyfer plant mudol ar eu pen eu hunain i Gymru. Roedd Adran 21 yn galluogi trosglwyddo plant mudol ar eu pen eu hunain rhwng awdurdodau lleol, gan gynnwys o bosibl allan o ofal awdurdodau lleol Cymru. Byddai adrannau 20 a 21 wedi cael effaith ar ofal cymdeithasol datganoledig a swyddogaethau awdurdodau lleol.

17. Roedd adran 57 yn atal apelau yn erbyn canlyniad dulliau asesu oedran yr honnir eu bod yn rhai gwyddonol. Rhoddodd adran 58 y pŵer i Ysgrifennydd Gwladol y DU wneud rheoliadau ynghylch gwrthod asesiad oedran gwyddonol. Byddai'r darpariaethau hyn wedi effeithio ar swyddogaethau awdurdodau lleol Cymru ac awdurdodau datganoledig eraill sy'n darparu gofal a chymorth i blant o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

18. Byddai'r pum adran a nodir uchod yn cael eu diddymu drwy gychwyn cymal 38 o dan y Bil. Roedd y pum adran yn destun Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol blaenorol yn ystod hynt y Bil Mudo Anghyfreithlon. Yn y ddau achos, pleidleisiodd Senedd Cymru i wrthod rhoi cydsyniad i Weinidogion y DU ddeddfu. Serch hynny, arhosodd y darpariaethau yn y Bil Mudo Anghyfreithlon wrth iddo ddod yn Ddeddf 2023.

<u>Cymal 51</u>

19. Mae **Cymal 51** yn darparu awdurdod statudol ôl-weithredol ar gyfer ffioedd a godir mewn cysylltiad â'r tri gwasanaeth canlynol a ddarperir gan gyflenwr trydydd parti ar ran y Swyddfa Gartref a'r Adran Addysg:

    (i) Gwasanaeth Fisâu a Chenedligrwydd y Swyddfa Gartref
    (ii) Gwasanaeth Rhwydwaith Ewropeaidd o Ganolfannau Gwybodaeth y DU (Gwasanaeth ENIC y DU)
    (iii) Gwasanaeth Cydnabod Cymwysterau Blynyddoedd Cynnar o'r tu allan i'r DU

20. Mae'r ddarpariaeth yn darparu lle bo'r amodau a nodir yn y cymal yn cael eu bodloni, y cymerir bod gan berson y mae'r cymal hwn yn gymwys iddo (h.y. yr Ysgrifennydd Gwladol neu berson heblaw'r Ysgrifennydd Gwladol a gododd y ffi berthnasol yn unol â threfniadau rhwng y person hwnnw a'r Ysgrifennydd Gwladol) y pŵer i godi ffioedd am wasanaethau. Yr amodau yw bod y ffi wedi'i chodi cyn pasio'r Bil, a bod y ffi wedi'i godi mewn cysylltiad ag arfer un o dair swyddogaeth. Mae'r cyntaf yn ymwneud â chymharu, cydnabod neu asesu at ddibenion mewnfudo neu genedligrwydd cymwysterau'r DU neu gymwysterau o'r tu allan i'r DU. Mae'r ail yn ymwneud â gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chymharu, cydnabod neu asesu cymwysterau o'r tu allan i'r DU ar gyfer cyflogaeth yng nghyd-destun y blynyddoedd cynnar. Mae'r trydydd yn ymwneud â gwasanaethau yn unol â chytundeb neu drefniant rhyngwladol sy'n gysylltiedig â chymharu, cydnabod neu asesu cymwysterau'r DU neu gymwysterau o'r tu allan i'r DU neu ddarparu gwybodaeth neu gyngor am gymwysterau o'r fath neu'r systemau ar gyfer eu dyfarnu, neu wasanaethau cysylltiedig.

21. Yn ystod ymarfer ail-gaffael diweddar a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU, nodwyd bod diffyg awdurdod statudol ar gyfer y ffioedd a godir ar gyfer Gwasanaeth Fisâu a Chenedligrwydd y Swyddfa Gartref a Gwasanaeth Cydnabod Cymwysterau Blynyddoedd Cynnar. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gwasanaethau Gwasanaeth ENIC y DU yn rhai 'masnachol' ac nad oes angen awdurdod statudol ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae'r Adran Addysg wedi dod i'r casgliad bod dadansoddiad amgen dilys. O'r herwydd, penderfynwyd gwneud darpariaeth statudol ar gyfer codi tâl am wasanaethau perthnasol, a'u cynnwys yn y Bil.

22. Mae Gwasanaeth ENIC y DU yn darparu'r unig asesiad o gymwysterau tramor a chymwysterau'r DU a datganiadau cymaroldeb a gymeradwyir gan Lywodraeth y DU. Mae'r gwasanaeth hwn yn hanfodol ar gyfer recriwtio myfyrwyr a gweithwyr mewn gwahanol sectorau o economi'r DU. Mae Gwasanaeth ENIC y DU yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau addysg uwch Cymru ac unigolion sy'n byw yng Nghymru ac sy'n bwriadu astudio yng Nghymru.

23. Mae prif nod a phwrpas cymal 51 o fewn y cylch gwaith addysg h.y. mynediad i addysg uwch a chydnabod cymwysterau cyn ac ar ôl addysg

uwch. Felly, mae angen cydsyniad ar gyfer cymal 51 gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y maent yn ymwneud ag addysg.

24. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn deall mai'r brif resymeg y tu ôl i'r ddarpariaeth a wneir gan gymal 51 yw osgoi costau posibl i Lywodraeth y DU yn y dyfodol a allai gael eu hysgwyddo drwy ad-dalu ffioedd a godwyd am wasanaethau a ddarparwyd hyd yn hyn o dan Wasanaeth ENIC y DU. Mae gwerth hyn yn ansicr yn ei hanfod ac yn dibynnu ar ffactorau ymddygiad y rhai sydd wedi talu am y gwasanaethau hyn.

25. Mae Llywodraeth y DU wedi bod mewn contract gyda'r darparwr gwasanaeth Ecctis ers o leiaf 2014. Mae Ecctis wedi codi ffioedd ar ddarparwyr ac unigolion yng Nghymru mewn cysylltiad ag aelodaeth a cheisiadau.

26. Yn ôl yr wybodaeth a gafwyd gan yr Adran Addysg yn ystod 2024, roedd 17 o sefydliadau yng Nghymru ag aelodaeth weithredol o Wasanaeth ENIC y DU gyda dros 700 o geisiadau wedi'u gwneud gan aelodau o Gymru. Yn ystod y cyfnod 2022 – 2024 cafodd dros 1400 o geisiadau eu gwneud i Wasanaeth ENIC y DU gan unigolion sy'n byw yng Nghymru. Bydd llawer mwy o unigolion yn gwneud cais o dramor gyda'r bwriad o astudio neu weithio yng Nghymru.

27. Mae Llywodraeth Cymru wedi prynu aelodaeth o gronfa ddata Cymariaethau Rhyngwladol Gwasanaeth ENIC y DU i gefnogi'r cyngor a roddir i unigolion, yn enwedig pobl sy'n chwilio am noddfa, i'w helpu i ddeall cydwerthedd eu cymwysterau rhyngwladol a sut maent yn cymharu.

28. Mae aelodaeth Llywodraeth Cymru o Wasanaeth ENIC y DU yn cyfrannu at gam gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chenedl Noddfa: *"Cynnal a hyrwyddo cysondeb rhwng Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, Fframwaith Cymwysterau'r DU a'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd er mwyn cefnogi ceiswyr noddfa sy'n ceisio cydnabyddiaeth am eu cymwysterau presennol.*

29. Cafodd y trefniadau contractio a chodi ffioedd hanesyddol ar gyfer Gwasanaeth ENIC y DU eu rhoi yn eu lle gan Lywodraeth y DU ond maent yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru. Mae ansicrwydd ynghylch pryd y codwyd ffioedd am y tro cyntaf am y gwasanaethau hyn, ond mae'n bosibl y gallai'r ffioedd fod wedi bod ar waith ers 2014 o leiaf. Felly mae'n briodol i ddarpariaeth gael ei gwneud ym Mil Llywodraeth y DU yn hytrach na defnyddio Bil gan y Senedd i fynd i'r afael â'r mater, gan fod hyn yn delio â threfniant a sefydlwyd ac a weinyddwyd gan Lywodraeth y DU.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

30. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno y gallai fod angen cydsyniad mewn perthynas â chymal 51. Mae Llywodraeth y DU yn credu bod cymal 38 yn ymwneud â dibenion mewnfudo a gadwyd yn ôl yn gyfan gwbl, ac felly nid oes angen cydsyniad.

**Goblygiadau ariannol**

31. Os yw'r Senedd yn cydsynio i ddarpariaeth a wneir gan gymalau 38 a 51 fod yn berthnasol i Gymru, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi i Lywodraeth Cymru.

**Casgliad**

32. Fel y nodir uchod, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd.

33. Yn fy marn i, mae'n briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Lywodraeth y DU, gan fod angen mynd i'r afael â sefydlu *vires* cyfreithiol priodol ar gyfer ffioedd hanesyddol a godwyd mewn perthynas â Gwasanaeth ENIC y DU trwy ddull DU gyfan cyn gynted â phosibl. Ni fyddai'n ymarferol i Lywodraeth Cymru fynd ar drywydd *vires* cyfreithiol ôl-weithredol ar gyfer ffioedd hanesyddol Gwasanaeth ENIC y DU drwy geisio darpariaeth mewn Bil gan y Senedd ac ni fyddai dull o'r fath yn caniatáu i ddarpariaethau ddod i rym ar yr un pryd ar draws y DU.

34. At hynny, nid yw'n bosibl diddymu darpariaethau perthnasol Deddf Mudo Anghyfreithlon 2023 drwy unrhyw beth heblaw deddfwriaeth gan y DU.

35. Felly, rwy'n argymell bod y Senedd yn cefnogi ac yn rhoi ei chydsyniad i gymalau 38 a 51.

**Jane Hutt AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**17 Chwefror 2025**